

CARDIFF CASTLE
CASTELL CAERDYDD

2021

# Partïon y Nadolig


CASTELL CAERDYDD

# Partïon y Nadolig 2021

**Dathlwch eich parti Nadolig yn lleoliad crand Castell Caerdydd. Os ydych chi'n edrych am brofiad unigryw a chrand, neu noson anffurfiol yn llawn hwyl a gwledda, mae gan Gastell Caerdydd barti Nadolig perffaith i chi!**

**Dewiswch un o'r ddau opsiwn gwych yma:**

**Partïon Ecsglwsif**

- Llogi'r Llyfrgell, y Neuadd Wledda, yr Is-grofft neu Ystafelloedd Gwesteion y Tŵr

**Gwleddoedd a Hwyl yn yr Is-grofft**

- Gwledd Gymreig y Nadolig gydag adloniant Cymreig traddodiadol

Dim ond hyn a hyn o le sydd ar gael felly peidiwch ag oedi cyn archebu.

Ffoniwch 02920 878 100 nawr





# Partïon Ecsglwsif

**Os ydych yn chwilio am swper anffurfiol, digwyddiad diodydd a chanapé fydd yn gwneud argraff neu leoliad unigryw ar gyfer parti, mae gan Gastell Caerdydd rywbeth at ddant pawb.**

**Neuadd Wledda**
Mae'r ystafell hon, sef yr ystafell fwyaf ac un o'r rhai mwyaf trawiadol yn y Castell gyda thoeau uchel a goleuadau atmosfferig, yn lleoliad anhygoel ar gyfer eich digwyddiad. Mae'r Neuadd Wledda wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau crand nid yn unig gan y teulu Bute, ond hefyd Uwchgynhadledd NATO Cymru yn 2014 hefyd!

**Y Llyfrgell**
Y lleoliad delfrydol i gynnal derbyniad diodydd cyn i'ch gwesteion gymryd i'w seddi yn y Neuadd Wledda. Mae'r holl addurniadau gwreiddiol i'w gweld o hyd, ac mae cypyrddau llyfrau coeth yn leinio'r waliau â'u godidowgrwydd.

**Yr Is-grofft**
Mae'r Is-grofft â chromgell gerrig yn un o rannau hynaf y Castell, ac mae hefyd yn lleoliad Gwleddoedd Cymreig poblogaidd iawn Castell Caerdydd. Wedi'i addurno gyda baneri a llenni crog, mae gan yr Is-grofft atmosffer anhygoel, gan gynnwys bar ac ardal dderbynfa ei hun.

**Ystafelloedd Gwesteion y Twr**
Lolfa hunangynhaliol ecsglwsif, a oedd yn arfer bod ar gael yn unig i ffrindiau agosaf a gwesteion yr Arglwydd Bute. Mae gan Ystafelloedd Gwesteion y Twr olygfeydd godidog o'r Gorthwr Normanaidd a Thiroedd y Castell. Preifat, cain ac unigryw - yn berffaith ar gyfer partïon llai.

Holwch am brisiau ar 02920 878 100



# Gwledd Gymreig y Nadolig

**Mae Gwledd Gymreig draddodiadol y Castell yn berffaith ar gyfer noswaith anffurfiol yn llawn cerddoriaeth wych ac adloniant ardderchog. Gyda blasu medd wrth gyrraedd a Meistr Seremoni yn eich tywys drwy'r noson, byddwch ar eich traed yn ymuno yn hwyl y noson mewn dim o dro!**

**Mae'r pecyn yn cynnwys:**

- Blasu medd wrth gyrraedd
- Mwynhewch wledd yn yr Is-grofft o'r 15fed ganrif
- Bwydlen â thri chwrs
- Hanner potel o win i bawb
- Disgo
- Bar arian parod drwy'r nos

**Amseroedd**

- 7.00pm - Cyrraedd
- 7.30pm - Cinio'n cael ei weini
- 10.00pm - Cinio a'r adloniant yn dod i ben
- 10.30pm - Disgo
- 12.30pm - Disgo'n dod i ben/Bar yn cau
- 1.00am - Coetsys

**Dyddiadau a Phrisiau:**

Dydd Gwener, 3ydd Rhagfyr - **£65.00**
Dydd Iau, 9fed Rhagfyr - **£60.00**
Dydd Gwener, 10fed Rhagfyr - **£65.00**
Dydd Iau, 16eg Rhagfyr - **£60.00**
Dydd Gwener, 17eg Rhagfyr - **£65.00**





# Bwydlen

**I ddechrau**

Cawl cyri clasurol (figan)
gyda crème fraiche afal (di-glwten)

Coctêl eog mwg a chorgimwch
gyda letys a dresin y Mil Ynysoedd (di-glwten)

**Dewiswch o un prif gwrs**

Twrci rhost gyda stwffin bricyll wedi'i weini gyda selsig mewn bacwn, pannas mêl a jus llugaeron

Syrlwyn cig eidion wedi'i frwysio gyda madarch portobello a saws mwstard Ffrengig (di-glwten)

Pate cnau castan en croute gyda saws thomato rhost, basil a gwin gwyn (figan)

Wedi ei weini gyda thatws a llysiau'r tymor

**Pwdin**

Teisen siocled driphlyg gyda hufen iâ fanila

Browni siocled poeth gyda sorbet prosecco mefus (figan)

Te / Coffi a mins peis

**Gallwch ddewis pwdin gwell fyth am £3 y pen**
**Bwrdd Caws Cymreig wedi'i weini gyda bisgedi bara lawr a siytni lleol**



# Telerau ac Amodau

## PECYNNAU PARTION NADOLIG 2021

- Mae pob Gwledd Gymreig Nadolig yn amodol ar alw'n fwy na'r lleiafswm niferoedd sydd ei angen i fwrw ymlaen â digwyddiad llwyddiannus. Os nad, mae'n bosibl y bydd dyddiadau amgen neu ad-daliad yn cael ei gynnig. Ni fydd Castell Caerdydd yn atebol am unrhyw gostau trafnidiaeth neu lety
- Mae angen blaendal o 50% y person o fewn 14 diwrnod o'r archeb i sicrhau eich lleoedd. Os na dderbynnir y blaendal, bydd y lleoedd ar gael unwaith eto.
- Rhaid derbyn cadarnhad o'r niferoedd terfynol, dewisiadau'r fwydlen (gan gynnwys gofynion dietegol arbennig) ac unrhyw archebion gwin ddim hwyrach na 4 wythnos cyn y digwyddiad. Os ydych yn cadw lle o fewn 4 wythnos o'r digwyddiad, bydd angen y taliad llawn, dewisiadau'r fwydlen a'r gwin yr ydych wedi'i archebu ymlaen llaw'n syth.
- Does dim modd uwchraddio gwin a ddarperir yn rhan o'r pecyn ar y noson; fodd bynnag gallwch archebu gwin ychwanegol ymlaen llaw neu ei brynu ar y noson o'r bar.
- Sylwch nad ydym yn gallu gweini bwyd sy'n addas ar gyfer gofynion dietegol arbennig heb rybudd ymlaen llaw. Rhaid rhoi manylion ddim hwyrach na 4 wythnos cyn y digwyddiad. Bydd newidiadau a wneir ar ôl hyn ar ddisgresiwn Castell Caerdydd.
- Gallwch ychwanegu at eich archeb ar unrhyw adeg (yn amodol ar argaeledd a thalu'r blaendal). Fodd bynnag, os ydych yn lleihau eich niferoedd ni fyddwch yn derbyn ad-daliad, a does dim modd trosglwyddo taliadau i dalu am unrhyw wasanaethau eraill.
- Os ydych yn talu ar ran gr□p mawr, ceisiwch drefnu un taliad ar gyfer yr holl barti. Ni allwn dderbyn taliadau unigol.
- Yn yr achos annhebygol bod rhaid i ni ganslo parti (oherwydd amodau'r tywydd er enghraifft) neu newid yr adloniant, byddwch yn cael gwybod ac yn cael cynnig dyddiad / digwyddiad amgen neu ad-daliad; ni fydd Castell Caerdydd yn gyfrifol am hyn.
- Mae gosodiad y byrddau, meintiau'r byrddau a'r cynlluniau eistedd ar ddisgresiwn Castell Caerdydd. Ceidw'r hawl i dorri partïon mawr i fyny i grwpiau llai, ac i grwpiau llai fod yn eistedd gyda phobl eraill, yn dibynnu ar niferoedd terfynol bob digwyddiad.



- Ni allwn osod y cyfleusterau'n unigol ar gyfer unrhyw un o'r digwyddiadau, oni bai y telir am y capasiti llawn.
- Bydd y gwasanaeth bwyd yn digwydd yn brydlon felly dylech gyrraedd ar yr amser a nodir ar y llythyr cadarnhau. Os ydych yn cyrraedd yn hwyr, efallai na fyddwch yn cael y derbyniad diodydd / rhan o'r pryd bwyd a ni fyddwch yn cael ad-daliad.
- Gwneir pob ymdrech i ateb gofynion arbennig, ond nid oes modd gwarantu.
- Os oes gan aelod o'ch parti broblemau symudedd, rhowch wybod i ni pan fyddwch yn cadw lle.
- Ceidw Castell Caerdydd yr hawl i wrthod mynediad.
- Mae'r holl brisiau'n cynnwys TAW ar y raddfa bresennol. Os oes angen derbynneb TAW arnoch, rhowch wybod i ni.
- Gall newidiadau i'r fwydlen ddigwydd oherwydd argaeledd cynhwysion. Byddwn yn cynnig dewis amgen addas fydd werth yr un peth, neu'n uwch, heb i chi orfod talu unrhyw beth.
- Drwy drefnu eich digwyddiad gyda ni, rydych yn cytuno i'r telerau ac amodau.
- Oherwydd natur barhaus ac anrhagweladwy pandemig Covid-19, efallai y bydd yn ofynnol i Gastell Caerdydd newid trefniadau digwyddiadau ar fyr rybudd. Gallai newidiadau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, leihau y nifer sy'n bresennol, ad-drefnu cynllun llawr, dileu rhai elfennau, neu ganslo'n llwyr. Gwneir pob ymdrech i gyflawni digwyddiadau gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl ac i gynnal pob parti mewn modd teg a chyfrifol, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar y pryd.

